



# Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru

**Diweddariad Gorffennaf 2022**

**Croeso i gylchlythyr cyntaf Tyfu Canolbarth Cymru!**

Wrth i ni groesawu rhanddeiliaid newydd a rhanddeiliaid sy'n dychwelyd, dyma gylchlythyr newydd sbon sy'n cynnwys diweddariad am ddatblygiadau Tyfu Canolbarth Cymru.

Gan bod sawl wyneb newydd o gwmpas y bwrdd rhith, rydym wedi cynnwys trosolwg o Dyfu Canolbarth Cymru, y daith hyd yn hyn a'r cynllun er mwyn sicrhau cynnydd dros y misoedd nesaf.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn bwrw golwg ar y broses lywodraethu sy'n ymwneud â chynigion prosiect y Fargen Twf hefyd, er mwyn esbonio'r camau y mae angen eu cymryd o fod yn gynnig cychwynnol i'r cam cyflawni terfynol.

Bydd y cylchlythyr hwn yn ffordd reolaidd o gyfathrebu gyda'n rhanddeiliaid/aelodau, a byddwn yn chwilio am ffyrdd o wella'r ffordd yr ydym yn cyfleu ein newyddion. Felly, os oes gennych chi unrhyw adborth, sylwadau neu newyddion perthnasol i'w cynnwys yma, hoffem glywed gennych.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tim Tyfu Canolbarth Cymru***

**Darllenwch ymlaen am:**

- Beth yw Tyfu Canolbarth Cymru?
- Newyddion y Bwrdd
- Camau Cyflawni Prosiect: Dehongli'r Broses Lywodraethu ar gyfer datblygiadau prosiect
- Edrych Ymlaen

## Beth yw Tyfu Canolbarth Cymru?

Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn bartneriaeth ranbarthol ac yn drefniant ymgysylltu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ers ei sefydlu yn 2015, llwyddwyd i sicrhau cryn gynnydd. Mae rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi dangos gwir ymrwymiad i gydweithio er mwyn helpu i ysgogi twf economaidd trwy gyfrwng gweledigaeth a rennir yn y rhanbarth.

### Ein Nodau:

1. Annog rhyngweithio gyda busnesau, addysg bellach ac uwch, a gyda rhanddeiliaid o'r sector cyhoeddus a phreifat
2. Nodi themâu a sectorau allweddol, ynghyd â blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad
3. Cynorthwyo gweithgarwch arloesi, menter a buddsoddiad a arweinig gan fusnesau yng Nghanolbarth Cymru
4. Sicrhau gweithio trawsnewidiol a chydweithredol ehangach gan weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid allweddol a'r gymuned fusnes
5. Cytuno ar rolau, cyfrifoldebau a threfniadau cyflawni gwell wrth hyrwyddo datblygiad economaidd
6. Sicrhau gweithgarwch ymgysylltu a mewnbwn eang a fydd yn helpu i roi cyngor am y Fargen Twf

Gellir gweld gwybodaeth bellach gan gynnwys newyddion am yr holl dimau o fewn Tyfu Canolbarth Cymru ar y wefan: [www.growingmid.wales](https://www.growingmid.wales)<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup><https://www.growingmid.wales>

## Newyddion am Gyfarfod y Bwrdd



### **Cynhaliwyd Cyfarfod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 21 Mehefin. Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a drafodwyd:**

Mae cynnydd yn cael ei sicrhau gyda'r prosiectau ym Mhortffolio y Fargen Twf, gyda'r cyflwyniad o **Achosion Amlinellol Strategol (SOC)** yn cael eu hystyried nawr i symud ymlaen i'r cam nesaf.

Mae'r **Grŵp Cynghori Economaidd (EAG)** wedi cael ei sefydlu ac mae'n barod er mwyn helpu i gynghori am gryfderau neu wendidau prosiectau sy'n cael eu datblygu fel rhan o Bortffolio Bargaen Twf Canolbarth Cymru. Bydd y Grŵp yn darparu gwybodaeth a phrofiad o'r sector busnes er mwyn asesu'r cynigion prosiect amrywiol wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf.

Datblygu Rhaglen – **Digidol**: Mae darpariaeth cysylltedd ar draws y rhanbarth yn flaenoriaeth. Mae tîm TCC yn gweithio trwy restr hir o ymyriadau a chyfleoedd er mwyn helpu i i nodi cynigion a all gyflymu cynlluniau. Mae gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r prif ddarparwyr rhynggrwyd yn yr ardal gynlluniau i fuddsoddi mewn datblygiad digidol a bydd tîm TCC yn sicrhau bod y gwaith y maent yn ei gyflawni yn ategu'r cynlluniau hyn, ac os bosib i gyflyma'r cynlluniau yma.

**Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (RSP) Canolbarth Cymru** - Lansiwyd Adroddiad Sgiliau Gwyrdd (a ddatblygwyd gan Data Cymru a phedwar Rheolwr RSP Cymru) ar 23 Mawrth (a gellir ei weld yma<sup>2</sup>) ac fe'i rhannwyd gyda Llywodraeth Cymru er mwyn iddi ei ystyried. Mae'r adroddiad yn cynnig sylfaen ar gyfer gwaith archwilio dwfn pellach am y sector ar gyfer y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau 2022-2025 3-blynedd newydd.

Gwarant y Person Ifanc: Mae ymrwymiad uchelgeisiol sy'n cynnig cymorth i bawb dan 25 oed i sicrhau gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth wedi cael ei gyflwyno trwy gyfrwng

<sup>2</sup><http://www.growingmid.wales/documents>



Rhaglen Lywodraethu. Cynhelir ymarferion ymgysylltu i ddeallu rhwystrau sy'n atal darpariaeth a chynnydd, a bydd y canlyniadau yn cyfrannu at gynllun gweithredu.

Mae Bwrdd RSP wedi sefydlu tri grŵp clwstrwyr cychwynnol a fydd yn gweithredu fel cynghorwyr arbenigol i Fwrdd RSP. Y rhain yw: Darparwyr Hyfforddiant, Busnesau a Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd y grwpiau clwstrwyr hyn yn canolbwyntio ar feysydd penodol er mwyn helpu i nodi bylchau mewn sgiliau, anghenion a'r galw ar draws y rhanbarth er mwyn helpu i gynorthwyo busnesau a chyfrannu at y Cynllun Cyflogaeth a sgiliau 3 blynedd newydd.

Yn ystod Cyfarfod Bwrdd TCC, enwebwyd dau aelod Cabinet etholedig i eistedd ar Fwrdd RSP, un o'r ddau Awdurdod Lleol. Enwebodd Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Bryan Davies, Wyn Thomas Aelod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Enwebodd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, David Selby, Aelod Cabinet Cyngor Sir Powys dros Bowys sy'n Fwy Ffyniannus.

## Camau Cyflawni Prosiect: Dehongli'r Broses Lywodraethu ar gyfer cynigion prosiect y Fargen Twf




Mae'r Fargen Dwf yn rhan o Weledigaeth ehangach ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a bydd yn cyfrannu law yn llaw â chasgliad o strategaethau a buddsoddiadau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel rhan o ddull cyffwrdd o ddod â ffyniant i gymunedau a busnesau'r rhanbarth.

Mae gofyn i'r Fargen Twf ddilyn methodoleg arfarnu **Model Busnes 5 Achos** a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM lle y mae'n rhaid i noddwyr prosiect (ymgeiswyr) ddangos datblygiad yn erbyn 5 dimensiwn allweddol: Achos Strategol, Achos Economaidd, Achos Masnachol, Achos Ariannol, Achos Rheoli.

Mae hyn yn cynnwys paratoi tri cham achos busnes: Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol, Achos Busnes Llawn a chaiff pob adran ei ailystyried a'i ddiweddarau wrth i gynnig y prosiect esblygu.

Caiiff cynigion eu harfarnu yn ystod pob un o'r camau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf, a chael eu hystyried am gyllid yn y pen draw.



1 - Camau Cyflawni Prosiect Bargaen Twf Canolbarth Cymru

## Edrych Ymlaen

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

<https://twitter.com/growingmidwales>

[www.linkedin.com/company/growing-mid-wales](http://www.linkedin.com/company/growing-mid-wales)

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

**Ymwadiad:** Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e-bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at [growingmidwales@ceredigion.gov.uk](mailto:growingmidwales@ceredigion.gov.uk).





UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddosoddi Ewropeaidd  
European Structural  
and Investment Funds**